OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3156 (Cy. 205 )

# AER GLÂN, CYMRU

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *28 Tachwedd 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Rhagfyr 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 20(6) a 63(1) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Deddf Aer Glân 1993**

**2.**—(1) Diwygir Atodlen 1 i Reoliadau Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) 1991(**2**) fel a ganlyn:

(2) Yn lle paragraff 8(a) rhowch —

"(a) Coal Products Limited at Cwm Coking Works, Llantwit Fardre, Pontypridd, Mid Glamorgan and sold as "Sunbrite",".

(3) Ym mharagraff 8AA(**3**), yn lle ", which" rhowch "and Aimcor Supercoke (also marketed as Supercoke), manufactured by M & G Fuels Limited at Hartlepool Docks, Hartlepool, Cleveland, which (in each case)".

(4) Ar ôl paragraff 17A(**4**) mewnosodwch:—

"**17AB.** Supabrite Coke Doubles, manufactured by H.J. Banks & Company Limited at Inkerman Road Depot, Tow Law, County Durham, which —

(**1**) 1993 p.11. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).
(**2**) O.S. 1991/1282, a ddiwygiwyd gan O.S. 1992/72, 3148, 1993/2499, 1946/1145, 1997/2658, 1998/2154 a 3096.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 8AA gan reoliad 2(c) o O.S. 1998/3096.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 17A gan reoliad 2(9) o O.S. 1993/2499.

(a) comprise metallurgical coke (as to approximately 40 to 60 per cent of the total weight) and petroleum coke (as to the remaining weight);

(b) were manufactured from those constituents by a process involving blending and screening;

(c) are unmarked random shapes; and

(d) have a sulphur content not exceeding 1.95 per cent of the total weight.".

(5) Ym mharagraffau 18, 18A(**5**) a 19, yn lle "Thermac Fuels Limited" ym mhob man y ceir yr enw rhowch "Coal Products Limited".

(6) Yn lle paragraff 18B(c)(**6**) rhowch —

"(c) are pillow-shaped briquettes marked with a single indented line running longitudinally along each face, offset from its counterpart by 10 millimetres or unmarked, and in either case have an average weight of 75 grammes; and".

**Eithriadau**

**3.** Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan reoliad 2(2) a (5), bydd golosg Sunbrite a Beacon Beans a weithgynhyrchwyd cyn i'r Rheoliadau yma ddod i rym yn Avenue Coking and Chemical Works, Wingerworth, ger Chesterfield, Swydd Derby a brics glo Supertherm, Supertherm II a Thermac a weithgynhyrchwyd cyn y dyddiad hwnnw gan Thermac Fuels Limited yn dal i fod yn danwyddau awdurdodedig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)).

*Dafydd Elis Thomas*
28 Tachwedd 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) Mewnosodwyd paragraff 18A gan reoliad 2(9) o O.S. 1996/1145.
(**6**) Mewnosodwyd paragraff 18B(c) gan reoliad 2(c) o O.S. 1997/2658.
(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Pan fydd mwg yn cael ei ollwng o simnai mewn ardal rheoli mwg a bod y simnai honno naill ai -

(a) yn simnai adeilad; neu

(b) yn simnai sy'n gwasanaethu ffwrnais bwyler sefydlog neu beiriannau diwydiannol (heb fod yn simnai adeilad),

mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn darparu bod meddiannydd yr adeilad, neu yn ôl fel y digwydd, y person sy'n meddu ar y bwyler neu'r peiriannau, yn euog o dramgwydd. Mae'n amddiffyniad os gellir dangos mai drwy ddefnyddio tanwydd awdurdodedig yn unig yr achoswyd y gollyngiad honedig.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) 1991 fel bod Aimcor Supercoke (sy'n cael ei farchnata hefyd fel Supercoke) a Supabrite Coke Doubles yn danwyddau awdurdodedig.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 1991 hefyd i gymryd y newidiadau canlynol i ystyriaeth —

(a) nid yw Beacon Beans yn cael eu gweithgynhyrchu mwyach;

(b) mae'r man lle mae Sunbrite yn cael ei weithgynhyrchu yn wahanol bellach;

(c) Coal Products Limited yw gweithgynhyrchydd brics glo Supertherm, Supertherm II a Thermac bellach;

(ch) mae brics glo Taybrite hefyd yn cael eu gweithgynhyrchu bellach heb unrhyw farciau.